

Croesawch ymwelwyr newydd i'ch treftadaeth yn ystod Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol 2022

26/01/2022



Mae SS Great Britain yn cynnig 1,000 o docynnau am ddim. Credyd: Adam Gasson

A yw eich prosiect wedi derbyn arian gan y Loteri Genedlaethol? Cofrestrwch ar gyfer Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol a dywedwch #DiolchiChi i chwaraewyr – a chyrraedd ymwelwyr a chefnogwyr newydd ar hyd y ffordd.

Ers i'r Loteri Genedlaethol gael ei chynnal ar 19 Tachwedd 1994, mae mwy na £40biliwn wedi'i godi ar gyfer achosion da. Mae hynny yn fwy na £30miliwn bob wythnos, gan wneud gwahaniaeth enfawr i bobl a chymunedau ledled y Deyrnas Unedig.

Mae dros 625,000 o brosiectau wedi derbyn arian gan y Loteri Genedlaethol yn ystod y cyfnod hwnnw. A yw eich prosiect yn un ohonynt?

Beth yw Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol?



Mae Pentref Tramffordd Crich yn Swydd Derby yn cynnig mynediad dau-am-un rhwng 21-23 Mawrth.

Mae Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yn cynnig cyfle i chi ddweud #DiolchiChi enfawr wrth y chwaraewyr sydd wedi gwneud eich prosiect yn bosibl.

Yn ystod yr wythnos, mae sefydliadau ledled y wlad— gan gynnwys llawer yn y sector treftadaeth — yn cynnig cynnig arbennig i ymwelwyr sy'n dod â thocyn neu gerdyn crafu y Loteri Genedlaethol gyda nhw.

Eleni mae'r wythnos yn cael ei chynnal **rhwng 19 a 27 Mawrth 2022**.

Pam cymryd rhan?

Mae'r wythnos yn gyfle uniongyrchol i ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a rhoi gwybod iddynt am y gwahaniaeth y mae eu cefnogaeth wedi'i wneud i chi.

Mae hefyd yn gyfle gwyh i elwa o ymgyrch hyrwyddo'r Wythnos Agored, a all eich helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chroesawu ymwelwyr blaenorol yn ôl.

Yn 2021, llwyddodd bron i 25,000 o chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gael mynediad at 650 o gynigion arbennig ledled y Derynas Unedig. Dywedodd 70% o ymwelwyr a ymatebodd i arolwg y Loteri Genedlaethol na fyddent erioed wedi ymweld â'r lleoliad o'r blaen neu heb fod yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Dywedodd 70% o ymwelwyr a ymatebodd i arolwg y Loteri Genedlaethol na fyddent erioed wedi ymweld â'r lleoliad o'r blaen neu heb fod yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

[Cofrestrwch](#) erbyn dydd Llun 7 Chwefror i gael y cyfle i gael ei gynnwys yn ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol yr Wythnos Agored. Byddwch hefyd ymhlith y cyntaf i dderbyn pecyn cymorth hyrwyddo.

Sut beth yw cynnig arbennig?

O fynediad am ddim i deithiau y tu ôl i'r llenni, rhodd neu baned o de a chacen, mae sawl ffordd o gymryd rhan.

Pa brosiectau eraill sy'n gwneud eleni:



Melin Coldharbour yn Dyfnaint yn cynnig mynediad hanner pris

- Bydd sefydliad **Band on the Wall** ym Manceinion yn ail-agor ym mis Mawrth a bydd yn cynnig 20% oddi ar bob digwyddiad.
- Bydd gan **SS Great Britain** ym Mryste, leinin cefnfor mawr cyntaf y byd, dros 1,000 o docynnau am ddim i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol eu harchebu ar-lein.
- Bydd **Melin Coldharbour** Dyfnaint, un o'r melinau tecstilau gwlân hynaf yn y byd, yn cynnig mynediad hanner pris.
- Bydd **Pentref Tramffordd Crich** yn Swydd Derby, cartref Amgueddfa'r Dramffordd Genedlaethol, yn cynnig mynediad dau am un diwrnod o 21-23 Mawrth.
- Bydd **St Nicholas Priory**, adeilad hynaf Caerwysg, yn cynnig canllaw am ddim fel rhan o ymweliad.
- Bydd yr **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** yn agor dros 140 o safleoedd gyda mynediad am ddim, gan gynnwys; Castell Powis yng Nghymru, a adeiladwyd tua 1200 fel caer ganoloesol; Neuadd Delaval Seaton, Northumberland, un o'r tai gorau yng ngogledd ddwyrain Lloegr; a Knole yng Nghaint, a adeiladwyd yn wreiddiol fel palas archesgob, gyda pharcdir sy'n gartref i geirw gwyllt.

Am ragor o ysbrydoliaeth, mae'r Loteri Genedlaethol wedi [llunio rhestr o gynigion gan gyfranogwyr mewn blynyddoedd blaenorol](#).

Sut i gymryd rhan

Gallwch gofrestru nawr ar [wefan y Loteri Genedlaethol](#), lle mae rhagor o wybodaeth a chymorth ar gael.



rdeb hefyd mewn ...



[Lwyddyn i ddod](#)

[Y tu allan i Bwll y Jiwbilî ym Mhenzance](#)



[Lwyddyn 2022?](#)

[Y Loteri Genedlaethol yn rhoi mwy na £1biliwn i fynd i'r afael ag effaith COVID-19](#)